*These notes refer to the Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (c.1) which received Royal Assent on 27 Ionawr 2014*

# DDEDDF ADDYSG BELLACH AC UWCH (LLYWODRAETHU A GWYBODAETH) (CYMRU) 2014

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH ARYR ADRANNAU A'R ATODLENNI

***Adran 6 – Diddymu dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gydymffurfio â chyfarwyddiadau***

17. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 33J a 33L o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac adrannau 116I a 116K o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â chynllunio a darparu cwricwla lleol yng Nghymru, sef cwricwla awdurdod lleol cyfan a sefydlir gan awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru. Effaith y diwygiadau yw dileu'r gofyniad i SABau gydymffurfio â chyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllunio cwricwla lleol a chydweithio i ddarparu cwricwla lleol. Fodd bynnag, rhaid i SABau barhau i roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chynllunio a darparu cwricwla lleol.